**Y PWYLLGOR ARCHWILIO - COFNOD PENDERFYNIADAU – 14 GORFFENNAF 2020**

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr** – L Walters (Cadeirydd), B Sedgebeer, T Beedle, CA Green, A Williams, AJ Williams, RM Granville, P Davies, A Hussain, a J Williams

**Aelod Lleyg:** Mrs J Williams

**Swyddogion** – G Lewis, E Thomas, D Exton, N Smith, MA Galvin, A Rees, J Llewellyn, SJ Byrne, M Thomas, J Davies

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb** – Cynghorwyr JE Lewis ac M Kearn

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod y Pwyllgor Archwilio wedi nodi'r Cofnod Gweithredu a atodwyd i'r adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Adolygiad dilynol Archwilio Cymru o drefniadau Corfforaethol ar gyfer diogelu plant** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod y Pwyllgor Archwilio wedi derbyn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac wedi nodi'r camau a'r cynnydd a wnaed o ran y cynigion i wella. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Diweddariad Pwyllgor Archwilio Cymru** |
| Penderfyniad a Wnaed | Nododd yr Aelodau ddiweddariad Pwyllgor Archwilio Cymru sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Cynllun Archwilio Blynyddol yr Archwiliad Allanol 2020** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod yr Aelodau wedi nodi cynnwys Cynllun Archwilio Blynyddol 2020 yr Archwilydd Allanol sydd yn Atodiad A i'r adroddiad, ac wedi cytuno ar y llofnodwyr awdurdodedig a amlinellir ym mharagraff 4.4 (o'r adroddiad). |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod y Pwyllgor wedi nodi Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Ymchwiliadau Twyll i Leihau'r Dreth Gyngor: Ebrill 2019 i Fawrth 2020** |
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Pwyllgor wedi nodi'r adroddiad ar y pwnc uchod. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Datganiad o Gyfrifon 2019-20 (heb eu harchwilio)** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod yr Aelodau wedi nodi'r Cyflwyniad ynghyd â'r Datganiad o Gyfrifon 2019-20 sydd heb ei archwilio (Atodiad A i'r adroddiad) |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-20** |
| Penderfyniad a Wnaed | Fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r drafft o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2019-20, gyda mân ddiwygiad i gynnwys cyfeiriad at reoliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfarfodydd rhithwir yn Atodiad A yr adroddiad, a chytunwyd i'w gynnwys o fewn Datganiad o Gyfrifon 2019-20 sydd heb ei archwilio. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Ffurflen Dreth Harbwr Porthcawl 2019-20 (heb ei harchwilio)** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod yr Aelodau wedi cymeradwyo ffurflen dreth heb ei harchwilio Harbwr Porthcawl 2019-20 sydd yn Atodiad A yr |

| | |
|---|---|
| | adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2019-20** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod yr Aelodau wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2019-20, gan gynnwys Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheoli'r Cyngor mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol.<br><br>Y bydd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi manylion am y gwasanaethau sy'n gysylltiedig â rheoli contractau a'r costau cysylltiedig i'r Pwyllgor nesaf. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Siarter Cydwasaethau'r Archwiliad Mewnol Rhanbarthol 2020-21** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod yr Aelodau wedi ystyried a chymeradwyo Siarter Cydwasanaethau'r Archwiliad Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2020/21 fel yr atodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |
| Teitl yr Adroddiad | **Blaenraglen Waith 2020-21** |
| Penderfyniad a Wnaed | Bod yr Aelodau wedi ystyried ac wedi cymeradwyo'r Flaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer 2020-21 |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Gorffennaf 2020 |